# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 23AIN HYDREF, 2018**

Lleoliad

**Parlwr Mawr, Theatr y Ddraig, Barmouth Community Centre,**

**Jubilee Road, Barmouth, Gwynedd. LL42 1EF**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 16 Hydref 2018)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Louise Hughes
Eryl Jones-Williams
Gethin Glyn Williams

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Rob Triggs | Cyngor Tref Abermaw |
| Mr Mike Ellis | Aelod o Bwyllgor Ras y Tri Copa |
| Cyng. R A Williams | Barmouth Resort Improvement Group |
| I’w gadarnhau | Cyngor Cymuned Arthog |
| Dr John Smith | Grwp Mynediad Traphont Abermaw |
| Mrs Wendy Ponsford | Clwb Hwylio Merioneth |
| Mr John Johnson | Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae Ceredigion |
| Mr Mark James | Cymdeithas y Bad Achub |
| Mr Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Y Cyng. Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| Y Cyng. David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2018/19

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is Gadeirydd ar gyfer 2018/19

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5. COFNODION** 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 6.03.18 fel rhai cywir

**6. DIOGELWCH HARBWR**

I ystyried unrhyw faterion diogelwch yr Harbwr

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETH YR HARBWR** 11 - 28

I ystyried adroddiad yr Harbwrfeistr

**8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

- I ystyried cynrychiolydd o'r Fairbourne Amenities Trust fel aelod cyfetholedig ar y Pwyllgor

**9. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 26 o Fawrth 2019

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2018 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams - Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Is-gadeirydd**

Y Cyng. Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Mark James (RNLI), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwylio Meirionnydd), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw), Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llŷr B. Jones | - | Uwch Reolwr – Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Arthur F. Jones | - | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr Abermaw |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas (Aelod Cabinet - Economi), Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae Cerdigion, Y Cyng. Rob Williams (BRIG), Dr John Smith (Grwp Mynediad Traphont Abermaw).

1. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

(a) Cyng. Gethin Williams – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
(b) Cyng. Julian Kirkham - yn perthyn i un o'r gweithredwyr fferi
(c) Mr Mike Ellis – aelod o bwyllgor Ras y Tri Copa
(d) Mrs Wendy Ponsford – aelod o'r Clwb Hwylio, aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
(e) Cyng. Rob Triggs – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol, aelod o'r Clwb Hwylio
(f) Mr Martin Parouty – gweithredwr masnachol yn yr harbwr, aelod o'r Clwb Hwylio ac Ymddiriedolaeth Cymunedol

Ni fu i'r Aelodau bleidleisio ar faterion a oedd yn ymwneud â'u buddiant personol.

2. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 23 Hydref 2017.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir, yn ddarostyngedig i'r canlynol:**

**Eitem 6 (b) – Cyfeiriwyd at y cofnod a dymunai y Cyng. Rob Triggs nodi nad oedd y stropiau wedi methu.**

Mewn ymateb i'r uchod, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod angen adolygu'r ddogfennaeth a phwysleiswyd bwysigrwydd i dderbyn tystiolaeth cyfredol a chywir ynglyn â chyflwr angorfeydd. Ychwanegwyd bod cyfrifoldeb ar bob perchennog cwch i sicrhau bod

angorfeydd yn addas i'r pwrpas.  Cadarnhawyd bod angorfeydd y Cyngor yn addas ac i safon uchel.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â risg i'r Cyngor ynglyn â chyflwr angorfeydd, sicrhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd risg o gwbl i'r Cyngor ond pwysleiswyd y byddai'n achos o bryder ac yn effeithio ar bremiwm yswiriant perchnogion cychod, pe na fyddai'r angorfeydd sydd mewn perchennogaeth preifat i fyny i safon a thystiolaeth perthnasol i warantu hynny.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

**(a) Eitem 6 (d) – Cynnal a Chadw**

Nodwyd y byddai'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn gallu diweddaru Aelodau o raglen waith cynnal a chadw dros gyfnod y gaeaf.

**(b) Penderfyniad (b) yn Eitem 6 - Ffonau Gwasanaeth Brys**

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd neb wedi defnyddio'r ffonau Gwasanaeth Brys ers dros ddwy flynedd a bod signal ffonau symudol ar gyfer 999 ar gael ymhob un o'r lleoliadau maent wedi eu lleoli heblaw Porth Ceiriad (Dwyfor).

**Penderfynwyd: Cyfleu i'r Aelod Cabinet perthnasol gymeradwyaeth y Pwyllgor Ymgynghorol i waredu y ffonau Gwasanaeth brys yn Abermaw a Fairbourne oherwydd y costau sydd ynghlwm iddynt a'r diffyg defnydd ohonynt.**

**(ch) Eitem (iv) – Diogelwch Parcio**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi trafod gyda'r Uwch Swyddog Trafnidiaeth ynglyn â'r darn sydd wedi ei liwio gyda llinellau melyn wrth ymyl adeilad SS Dora ac wedi derbyn cadarnhad ei fod yn weithredol fel rhan o'r gorchymyn parcio.  Fe fydd perchennog unrhyw gerbyd sydd yn parcio ar y llecyn dan sylw yn derbyn tocyn parcio gan y Swyddog Gorfodaeth.

Ychwanegwyd nad oedd unrhyw benderfyniad pellach wedi ei wneud ynglyn â ffordd ger y compownd.

**(c) Digwyddiadau**

Adroddwyd ei fod yn gamarweiniol yn y cofnod o safbwynt trefnu digwyddiadau yn yr Harbwr ac y dylai'r cofnod ddarllen y dylai "trefnwyr gysylltu â'r Gwasanaeth Morwrol yn gyntaf i gael caniatad i gynnal gweithgareddau".

**(dd) Ardal Weithgareddau wedi ei raffu i ffwrdd**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod ardal o dan y Bont, yn ymyl yr hen orsaf y Bad achub wedi ei adnabod fel ardal weithgareddau ac y byddir yn rhoi rhes o fwiau melyn i gadw cychod o'r ardal penodol yma, a'i dreilau am gyfnod.  Esboniwyd nad oedd ardal arall ar gael ac nad oedd yn ddŵr a oedd wedi ei adnabod ar gyfer ymdrochi.  Pwysleiswyd yr angen i drefnwyr cystadlaethau ymgymryd ag asesiadau risg er mwyn sicrhau diogelwch cystadleuwyr.

**(d) Taclusrwydd cyffredinol a lle storio o amgylch yr Harbwr**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bwysigrwydd i sicrhau cydweithio gyda defnwyddwyr masnachol yr Harbwr er taclusrwydd cyffredinol o amgylch yr Harbwr ac esboniwyd mewn ymateb i ymholiad gan Aelod nad oedd y sefyllfa 'run fath â Harbwr Aberdyfi pryd y codwyd gan Archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau (MCA) bod angen tacluso oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi.

**(e) Parth Gwahardd Cychod Pwêr / Cychod Dŵr Personol**

Yn deillio o bryder amlygwyd gan Aelod ynglyn â'r datganiad yng nghofnod y cyfarfod diwethaf nad oedd risg i'r cyhoedd pe na fyddir yn adfer y bwiau i farcio'r parth ymdrochi, adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai nifer isel iawn sydd yn ymdrochi yn y parth dan sylw a barn y Gwasanaeth Morwrol ydoedd peidio rhoi bwiau i farcio'r parth a bod y risg yn isel oherwydd nad oedd cychod yn hwylio ddigon agos I'r lan yn yr ardal hon. Bydd staff yr harbwr yn cadw llygad ar yr ardal dan sylw dros yr haf ac yn adrodd ar yr hyn bu iddynt arsylwi arno dros fisoedd yr haf.

Ychwanegwyd bod y Gwasanaeth yn gosod bwiau i fyny'r foryd yn ymyl Caerddaniel er mwyn lleihau'r risg ond ei fod yn lafurus a chostus i'w rhoi yn ôl ar eu safleoedd yn ddyddiol yn ogystal â'r ffaith bod nifer sylweddol yn mynd ar golly n flynyddol.

3. **<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, yn diweddaru'r Pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr.

**(a)** Croesawyd Alison Kinsey, Cydlynydd Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion, a oedd wedi gwneud cais i fynychu'r cyfarfod ac fe esboniodd bwrpas FLAG (Fisheries Local Action Group). Nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod 4 grwp yn weithredol yng Nghymru i bwrpas cefnogi'r diwydiant a chymunedau pysgota: Llandudoch i Abermaw, Ynys Môn a Gwynedd, Bae Abertawe a Cleddau i'r Arfordir
- Bod FLAG yn derbyn arian Ewrop a bod oddeutu £160,000 ar gael i'w wario hyd at 2020 a hyderir y gellir gwneud defnydd ohono drwy roi gymorth i prosiectau bychan sydd yn cael eu harwain o'r gymuned
- Bod strategaeth wedi ei lunio yn seiliedig ar angen lleol
- Rhoddir blaenoriaeth ar gyfer ariannu prosiectau sydd yn:
    - ychwanegu gwerth
    - creu swyddi
    - denu pobl ifanc a
    - hyrwyddo arloesedd ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi o gynhyrchion pysgodfeydd
- Gellir cynnig cymorth ariannol refeniw at brosiectau megis:
  datblygu prosiectau, prosiectau peilot, astudiaethau dichonoldeb, hyfforddiant, mentora, hwyluso ac ymgynghori.

Rhoddwyd engreifftiau o'r math o weithgareddau y gellir eu cynnal gyda chymorth FLAG:

- Gŵyl fwyd môr ar y cei
- Cystadleuaeth coginio bwyd môr rhwng cogyddion y gwestai lleol
- Anfon fflyd o bysgotwyr allan i'r môr i ddal pysgod
- Annog yr Ysgol leol i gymryd rhan mewn cystadleuaeth coginio bwyd môr
- Cydweithio gyda grwp o bysgotwyr lleol i gynnal gweithgareddau, a.y.b.

I gloi, esboniodd y Cydlynydd bod Mr Neil Storkey o Aberdyfi, yn gweithio'n agos gyda hi, ac y byddai cael cynrychiolydd o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw yn fanteisiol i fod yn rhan o gyfarfodydd FLAG i'r dyfodol.

Yn ogystal cyfeirwyd at Cywain sydd yn rhan o brosiectau Menter a Busnes a ddatblygwyd i gefnogi datblygu cynnyrch a marchnadoedd i gynnyrch amaethyddol a physgodfeydd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod gan Abermaw fwytai ardderchog ac y byddai'n ddelfrydol i gynnal gŵyl fwyd môr ar y cei
- Bod grŵp Cambrian yn weithredol sydd yn casglu deunyddiau plastig a olchir o'r môr ar y traeth

Cynigwyd ac eilwyd i enwebu y Cynghorydd Rob Triggs i fod yn bwynt cyswllt o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ac addawodd y Cydlynydd y byddai'n cysylltu ag ef yn uniongyrchol gyda unrhyw wybodaeth pellach.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo i enwebu'r Cynghorydd Rob Triggs i gynrychioli'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn mewn cyfarfodydd grŵp FLAG yn yr ardal.**

**(b)** Nododd y Cadeirydd nad oedd angen i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig dywys yr Aelodau drwy ei adroddiad ond yn hytrach gofynnwyd i Aelodau os oeddynt yn dymuno codi neu amlygu unrhyw fater yn deillio o gynnwys yr adroddiad. I'r perwyl hwn, amlygwyd y materion canlynol o gynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) **Clirio Tywod** – ar ôl blynyddoedd o waith i gadw'r Afon Ysgethin yn llifo ymddengys bod y twyni tywod yn diflannu i'r môr ac nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i ildio i wneud rhywbeth am y mater. Yn anffodus oherwydd diffyg gwrando fe fydd y broblem o glirio tywod yn Abermaw yn gwaethygu. Ategwyd y sylwadau uchod gan Aelod arall ac y dylai'r adrannau perthnasol drafod y mater ac y dylid herio Cyfoeth Naturiol Cymru o'r hyn sy'n digwydd.

(ii) **Asiantaeth Gwylwyr y Glannau** – gofynnwyd a oedd yr archwilwyr yn bwriadu ymweld ag Abermaw oherwydd nad oeddynt wedi ymweld fel rhan o'r achwiliad oherwydd cyfyngiad amser.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig er nad oedd cyfeiriad penodol yn eu hadroddiad i Harbwr Abermaw bod y Cod Diogelwch yn berthnasol i bob Harbwr a'u bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn Abermaw.

Tynnwyd sylw bod bwriad i'r archwilwyr ymweld unwaith yn rhagor yn yr Hydref ac y byddent yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ble byddai cyfle i holl aelodau'r Pwyllgorau Harbyrau fynychu'r cyfarfod hwnnw ac efallai y byddai cyfle i'r archwilwyr ymweld ag Abermaw bryd hynny.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned mai prif bwrpas yr adroddiad ydoedd ymchwilio i drefniadau llywodraethu, rheoli yr harbyrau.

(iii) Gofynnwyd a oedd pawb yn gorfod talu ffi Stad y Goron yn y swm o £25.00 yn ychwanegol i'r ffi angori.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod pob perchennog angorfa yn gorfod talu'r ffi uchod ymhob Harbwr, gan gynnwys angorfeydd y Cyngor, heblaw am Harbwr Pwllheli oherwydd bod y gost i'r harbwr hwnnw yn £150,000 yn flynyddol gyda'r swm yn

daladwy i stad Y Goron. Ychwanegwyd nad oedd yn bosibl i herio'r ffi gan y gallent godi mwy o ffi pe dymunent, a bod trefniadau cyffelyb yn bodoli mewn siroedd eraill ers blynyddoedd bellach.

(iv) Diolchwyd am yr arwyddion diogelwch gan y Bad Achub. Ychwanegwyd y bydd yr arwyddion yn cael eu gosod yn y mannau priodol yn ddi-oed ac y gellir eu rho i fyny mewn amser byr.

(v) O safbwynt newid dyddiad digwyddiad y "Motorcross" ar draeth Abermaw oherwydd ei fod yn gwrthdaro gyda gwyliau hanner tymor ysgolion ac y byddai tref Abermaw yn brysur 'prun bynnag a'r maes parcio yn llawn, cafwyd ar ddeall gan y trefnwyr ei fod yn anodd symud y dyddiad gan eu bod wedi eu cyfyngu i'r dyddiad hwn yn sgil cystadlaethau eraill sydd yn digwydd ar hyd a lled Prydain.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod bwriad i un o'r siopau carafanau gau yn ystod y digwyddiad uchod pe byddai 'run dyddiad â gwyliau hanner tymor ynghyd â Siop y Bad Achub oherwydd prysurdeb a olygai cadw rheolaeth o safbwynt stoc
- Cafodd y digwyddiad yn wreiddiol ei groesawu yn Abermaw er mwyn ehangu'r cyfnod gwyliau er budd yr economi leol
- Pe na fyddai'r digwyddiad yn dod i Abermaw, byddai colled i'r gwestai a darpariaeth gwely a brecwast
- Bod bwriad i ddarparu holiadur i fusnesau lleol i ganfod a oedd y digwyddiad o fudd i'r busnesau
- A fyddai modd ei symud i benwythnos arall yn Nhachwedd i gydfynd â Noson Tân Gwyllt ond pwysleiswyd bod Sul y Cofio ar 10 Tachwedd

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gysylltu gyda Mr Tom Arnold, trefnwr y Motorcross i ganfod yn y lle cyntaf a fyddai modd symud y digwyddiad eleni i benwythnos arall gan awgrymu i gydfynd â'r Noson Tân Gwyllt; ac yn ail os nad yw'n bosibl, a fyddai modd ystyried dyddiad i osgoi hanner tymor ar gyfer 2019.**

(vi) Nododd Aelod bod bwriad i sefydlu Grwp Achub Bywyd ac awgrymwyd i hysbysu'r Gwasanaeth Morwrol pan fydd cyfarfod wedi ei drefnu.

(vii) Yng nghyd-destun angorfeydd "ôl a blaen", nododd aelod o Bwyllgor Ras y Tri Copa mai'r Pwyllgor sydd yn berchen ar yr angorfeydd hyn a bod trafodaethau hirfaith wedi bod yn y gorffennol ynglyn a'u haddasrwydd. Nodwyd bod cychod drudfawr wedi angori arnynt heb unrhyw drafferth o gwbl. 'Roedd Pwyllgor Ras y Tri Copa yn fwy na bodlon i'r Cyngor ddefnyddio'r angorfeydd pe dymunent yn dilyn y ras. Awgrymwyd y dylai'r contractwr lleol a'r Gwasanaeth Morwrol drafod ymhellach ar gyfer defnydd 1 neu 2 o'r angorfeydd uchod.

Deallwyd gan y Cynghorydd Tref bod Pwyllgor Ras y Tri Copa wedi cyflwyno cais ariannol i'r Cyngor Tref yn ddiweddar. Nodwyd ymhellach bod y Cynghorydd Tref wedi cwrdd â'r Uwch Swyddog Harbyrau i drafod gwell defnydd o'r angorfeydd ond bod cyfarfod arall eto i'w drefnu.

(viii) Nododd y Cynghorydd Tref bod y Cyngor Tref wedi cynnig ariannu prosiect bychan yn "ardal y fynwent" ar gyfer darparu cadwyni a fyddai'n caniatau lansio. Fe fyddir yn trafod y mater ymhellach gyda'r Gwasanaeth Morwrol.

(ix) Sicrhawyd y Pwyllgor y byddai angorfeydd lle nad oes ffurflenni ar eu cyfer yn cael eu tynnu allan yn ystod yr haf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**4. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL (nad oedd wedi derbyn ystyriaeth fel rhan o adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig)**

**(a) Cyngor Tref Abermaw - Carthu**

Gofynnwyd a oedd unrhyw beth y gallasai'r Cyngor ei wneud?

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yn rhaid derbyn bod y sianel yn newid ac yn cau i fyny yn naturiol gyda'r sianel yn mynd yn bellach oddi wrth yr Harbwr, a rhaid bod yn realistig o safbwynt cyfyngiadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni ragwelir y bydd gwaith carthu yn digwydd oherwydd cyfyngiadau a'r gost.

Nododd y Cynghorydd Rob Triggs ei fod wedi cwrdd â thrafod gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn âg ymgymeryd â'r gwaith ar lefel lleol gyda chychod, ac ar ddeall bod modd gwneud hynny heb drwydded.

Amlygwyd pryder os na fyddir yn carthu y gellir colli'r Harbwr.

Awgrymwyd y ffordd ymlaen fyddai i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig dderbyn enwau swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod ymhellach goblygiadau o garthu cyn cymryd camau pellach i symud ymlaen.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu i weithredu yn unol â'r uchod.**

**(b) Cyngor Cymuned Arthog - Datblygiadau Rheolaeth Pwynt Penrhyn Fairbourne**

Nododd Cynghorydd Julian Kirkham bod Cyngor Cymuned Arthog yn gofyn am gymorth gyda'r amcanion isod ar gyfer rheoli'r mewnlifiad sylweddol o draffig twristiaeth sy'n cyrraedd yr ardal:

- Bod ymyrraeth wedi bod ar arwyddion rhybudd traffig 30mya yn arbennig wrth Tŷ Golff ar y ffordd i Bwynt Penrhyn
- Mannau parcio i'w paentio wrth faes parcio "dolen pasio"
- Gofynnwyd am atgyweiriadau i'r ffordd uwchben lle mae'r ffordd yn mynd i lawr i'r giât
- Marciau igam-ogam DIM PARCIO ar frig yr ardal sydd wedi'i atgyweirio
- Gofynnir am fannau parcio yn ardal parcio Pwynt Penrhyn
- Rhwystr cyfyngiad uchder yn ardal y maes parcio – os nad yw hyn yn bosibl, gosod dau arwydd o rybudd wrth fynedfa'r pentref a'r llall yng Ngogledd Penrhyn Drive yn nodi "Cyfyngiad ar gyfer Cerbydau Mawr ym Mhwynt Penrhyn"
- Gosod peiriant Talu ac Arddangos ynghyd â rhybudd parcio "£1.00 am 4 awr" a defnyddio'r arian tuag at gadw toiledau Friog ar agor

Nododd y Cynghorydd Kirkham ymhellach y byddai Cyngor Cymuned Arthog yn fodlon rheoli Llithrfa Fairbourne ond y byddai ef yn bersonol yn ymddeol o'r Cyngor Cymuned ym mis Ebrill a bod angen aelodau ifanc a fydd efallai gyda diddordeb i reoli Pwynt Penrhyn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Clwb Hwylio:**

- Mewn ymateb i honiadau ynglŷn â chau Ffordd y Promenad, sicrhaodd y Cadeirydd nad oedd wedi clywed dim am yr uchod.
- O safbwynt rheiliau tu allan i Adeilad Dora, mynegwyd bryder gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am y difrod a greuwyd i'r rheiliau gan gwch masnachol ac y byddir yn gwneud cais am ad-daliad ar gyfer y difrod. Nodwyd bod bwlch rhwng yr hanner llithrfa a'r stepiau yn achosi risg uchel o safbwynt iechyd a dioglewch i unigolion ddisgyn i'r môr ac yn dilyn asesiad risg, penderfynwyd gosod ffens. Nodwyd nad oedd y tir yn addas ar gyfer gerbydau barcio a dyna'r rheswm pam y gosodwyd byrddau picnic yna. Tra'n derbyn yn hanesyddol bod cychod wedi eu gaeafu yno nodwyd bod trefniadau mewn llaw i'w symud oddi yno, a phwysleisiwyd oherwydd y risg uchel bod rhaid gwarchod wyneb y cei a wal y cei Nodwyd y byddai modd i gerbydau lwytho a dadlwytho wrth yr hanner llithrfa a gyferbyn â swyddfa'r Harbwr Feistr. Byddai'n rhaid trafod y ffordd ymlaen gyda'r contractwr lleol i gymeradwyo camau i leihau'r risg iddo ac i'r awdurdod.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(d)** Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams at adroddiad parthed Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru gan awgrymu a fyddai modd denu arian ar gyfer gweithgareddau'r Harbwr.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Economi ei fod yn ymwybodol o'r cynllun uchod a'I fod yn becyn ariannu ar gyfer prosiectau gwahanol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r sylwadau i'r materion gyflwynwyd uchod.**

**5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Penderfynwyd: Nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Hydref 2018.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.40 p.m.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **23 Hydref 2018** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Mawrth 2018 a mis Hydref 2018, er mwyn cael adborth yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol Harbwr Abermaw.

## 2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod

2.1 Yn 2018/19 roedd ffigyrau angorfeydd yr Harbwr fel a ganlyn:-

2.2 Bu 72 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn 2018. Mae hyn yn cymharu ag 86 yn 2017 ac 88 yn 2016. Er mai siom yw'r gostyngiad yn nifer y cychod sydd yn yr harbwr, ni ellir priodoli hyn i unrhyw ffactor unigol. Mae pobl yn symud o'r ardal, unigolion yn ymddeol o fod yn berchnogion cychod, ac Awdurdod yr Harbwr yn gorfod symud cychod o'r harbwr am resymau diogelwch, i gyd yn ffactorau. Derbynnir hefyd ein bod ar hyn o bryd mewn hinsawdd economaidd sy'n ansefydlog ac ansicr.

2.3 Serch hynny, mae wedi bod yn galonogol derbyn nifer o ymholiadau yn swyddfa'r Harbwr am argaeledd angorfeydd ar gyfer y tymor nesaf gan gwsmeriaid newydd ac mae'r angorfeydd 'trot' gyferbyn â swyddfa'r harbwr yn llawn o hyd.

2.4 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, cafwyd gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid ym mhob un o'r harbyrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2.5 Cofrestrwyd 1066 o Gychod Pŵer wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2018 o gymharu â 955 oedd wedi'u cofrestru yn 2017. Cofrestrwyd 75 o Gychod yn Harbwr Abermaw o gymharu â 66 y llynedd.

2.6 Cofrestrwyd 924 o gychod dwr Personol yng Ngwynedd yn 2018. Mae hyn yn gynnydd o 186 cwch o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, 2017, pan gofrestrwyd 738.

2.7 Cofrestrwyd 74 o gychod dŵr personol yn Harbwr Abermaw o'i gymharu â 68 y flwyddyn flaenorol.

## 3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu i fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol Harbwr Abermaw.

3.1.2 Rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol.

3.1.3 Yn dilyn yr adoygiad a gynhaliwyd derbyniodd y Gwasanaeth adroddiad ynghylch yr archwiliad gan yr archwilwyr allanol ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol fis Mawrth diwethaf.

3.1.4 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd yr archwilwyr o'r farn fod y Gwasanaeth yn gyffredinol yn cydymffurfio â gofynion y cod, ond yn awgrymu mesurau i wella cydymffurfiaeth y Gwasanaeth yn benodol o ran y Deiliad Dyletswydd a'r Person Dynodedig.

3.1.5 O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, bydd Cabinet y Cyngor, sydd wedi'u hethol yn annibynnol, yn unigol ac ar y cyd, yn cael eu penodi'n 'Ddeiliad Dyletswydd' ar gyfer y Gwasanaeth a Chapten M. Forbes, Harbwrfeistr Conwy fydd y 'Person Dynodedig' gofynnol sydd â'r cymwysterau addas.

3.1.6 Er bod y Cod Diogelwch Morol ar gyfer yr Harbyrau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Gwasanaeth, atgoffir Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol o'u dyletswydd i gyflwyno cyflwyniadau ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch a derbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau er mwyn adolygu'r Cod Diogelwch i sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol.

3.1.7 Roedd archwilwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau i fod i ailymweld â'r gwasanaeth fis Hydref eleni fel dilyniant i'r adolygiad a gynhaliwyd y llynedd, a rhoi cyflwyniad cyn Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr ym Mhorthmadog ynghylch y Cod Diogelwch Morol yn ystod eu hymweliad. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, bu'n rhaid gohirio'r ymweliad tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf i gyd-fynd â chyfarfod y Pwyllgor ym Mhorthmadog, pan fydd yr archwilwyr yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor hwnnw.

3.1.8 Gwahoddir aelodau holl Bwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Gwynedd i fynychu'r cyflwyniad a roddir gan yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

4. **Materion Staffio**

4.3.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cynorthwyydd Harbwr Abermaw (tymhorol) i ben ar 30 Medi 2018. Dymuna'r gwasanaeth gydnabod cyfraniad Mr Myles Reed gyda'r gwaith a wnaeth yn yr harbwr.

4.3.2 Mae cytundeb gwaith cynorthwywr tymhorol yr Harbwr ym Mhorthmadog wedi'i ehangu i dridiau'r wythnos, yn fisol, a bydd yn rhan o dîm ehangach y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig, yn cefnogi a galluogi i'r gwasanaeth ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglenni cynnal a chadw ar draws Harbyrau Abermaw, Porthmadog ac Aberdyfi.

4.3.3 Mae gan y Gwasanaeth Morwrol saith aelod staff amser llawn ac un sy'n gweithio'n rhan amser (gweinyddol). Mae naw aelod staff ym Marina'r Hafan. Mae'r gwasanaeth wedi cael cyfnod prysur yn ystod yr haf eleni ac wedi gweld cynnydd yn y gwaith sy'n ymwneud â cham-drin a thrais, a bu ymosodiad corfforol ar aelod o staff tymhorol Morfa Bychan.

4.3.4 Yn ddibynnol ar gyfyngiadau ariannol a chyllidebol, mae'r Gwasanaeth yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflogi cymhorthydd harbwr amser llawn i weithio yn harbyrau Abermaw, Aberdyfi a Phorthmadog. Bydd y swydd cymhorthydd harbwr yn Abermaw fel arall yn dychwelyd i amser llawn ar 1 Ebrill 2019.

**5. Materion Ariannol**

5.1 Mae crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter wedi'i atodi.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer:-

- Cynnal a Chadw Cymorthyddion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw cwch patrolio'r harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau.
- Cynnal a chadw ystolion yr harbwr

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2018/19.** O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Personol yn 2019/20, bwriad y Gwasanaeth yw addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu rhoi ar waith.

6.0 **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd yr Harbwrfeistr yn Abermaw yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a weithredwyd ac a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2018, yn cynnwys y misoedd hynny, a chan gynnwys materion cynnal a chadw a digwyddiadau yn ystod y cyfnod perthnasol.

Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

# ADDRODIAD HARBWR ABERMAW

## CYFRIF INCWM A GWARIANT 2018-19

| | Cyllideb | Gwariant/Incwm hyd at 31.08.2018 | Taflynnu costau hyd at 31.03.2019 | Gor/(tan)wariant |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | £57,320 | £21,530 | £21,987 | -£13,803 |
| Adeiladau | £5,580 | £1,139 | £4,441 | £0 |
| Cludiant | £790 | £68 | £721 | -£1 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £9,420 | £15,360 | £4,000 | £9,940 |
| | | | | |
| | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | £73,110 | £38,097 | £31,149 | -£3,864 |
| | | | | |
| **Incwm** | -£36,330 | -£25,562 | -£3,570 | £7,198 |
| | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | £36,780 | £12,535 | £27,579 | £3,334 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **23 Hydref 2018** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **A.G. Jones Harbwrfeistr Abermaw** |

**1. Materion Mordwyo**

1.1. Pob blwyddyn, mae Tŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai Cyffredin, yn cynnal archwiliad annibynnol ar bresenoldeb a swyddogaeth y cymorthyddion mordwyo a gofnodwyd yn harbyrau Gwynedd a phob dwy flynedd bydd yr un Awdurdod yn cynnal archwiliad annibynnol o'r holl systemau, prosesau a chofnodion a gedwir am y cymorthyddion mordwyo yn harbyrau Gwynedd gan gynnwys gwirio'r holl gofnodion cynnal a chadw.

1.2 Ddydd Iau, 12 Ebrill 2018, daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i gynnal archwiliad o'r systemau, y prosesau a'r cofnodion cynnal a chadw a gedwir gan y Gwasanaeth. Yn dilyn yr archwiliad gwelwyd bod popeth yn gywir.

1.3 Ddydd Mawrth, 14 Awst 2018, daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i Harbwr Abermaw i gynnal archwiliad o bresenoldeb ac ymarferoldeb y cymhorthyddion mordwyo yn yr harbwr. Cafwyd bod yr holl gymorthyddion yn Abermaw yn gywir ac yn gweithio'n iawn ar wahân i un golau nad oedd ymlaen yn Nhraphont Abermaw ac fe adroddwyd hyn i'r Awdurdod Rheilffordd cyfrifol yn ôl y drefn ac fe'i cyweiriwyd.

1.4 Mae Awdurdod yr Harbwr yn dal i gynnal a diweddaru'r marciau mordwyo y tu mewn i ffiniau'r harbwr. Ers y cyfarfod diwethaf, gwnaed gwaith cynnal a chadw ar y cymhorthyddion, yn ystod hynny rhoddwyd cadwyn newydd ar bob nod mordwyo gan gynnwys bwi'r *'Fairway'*. Mae goleuadau mordwyo newydd hefyd wedi cael eu prynu yn lle'r Nod Cardinal ar Garreg Edwen, a bwi rhif 2.

1.5 Mae'r Gwasanaeth wrthi'n monitro'r angen osod nod mordwyo ym mynedfa'r Harbwr i amddiffyn morwyr rhag traethell o gregyn gleision sy'n tyfu y tu mewn i'r morglawdd ac mae cynlluniau'n parhau i roi nod mordwyo ychwanegol rhwng Carreg Edwen a morglawdd yr harbwr i wella diogelwch mordwyo.

1.6 Er mwyn cydymffurfio â'r newid yng nghwrs y sianel fordwyo ac ar y cyd â Thŷ'r Drindod bu'n rhaid adleoli Bwi Rhif 4 i safle rhyw 20 metr i'r de o'i safle blaenorol.

Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel i geisio sicrhau bod y cymhorthyddion mordwyo yn y lle mwyaf addas. Gall hyn fod yn waith heriol yn sgil y newidiadau cyson i'r sianel.

1.7 Hyd yma, nid oes unrhyw Rybuddion i Forwyr mewn grym yn harbwr Abermaw.

**2 Materion Gweithredol**

2.1 Mae Awdurdod yr Harbwr wedi gorfodi i ddau gwch gael eu symud o'r harbwr oherwydd eu cyflwr anniogel ac anaddas i'r môr. Roedd y ddau gwch yn yr harbwr ar ran o'r traeth ger y 'Baddondy'.

2.2 Wrth fonitro'r angorfeydd yn yr harbwr, bydd Awdurdod yr Harbwr yn dal ati i dynnu angorfeydd anniogel a segur. Mae Is-ddeddfau'r harbwr yn cael eu hadolygu fel trafododd y Pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol ynghyd â'r prosesau a'r ddogfennaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd angorfeydd.

2.3 Mae'r gwasanaeth hefyd wrthi'n adolygu Deddf Mordwyo Morol 2013 i asesu cymhwysedd Cyfarwyddyd Harbwr pe bai hyn yn ofynnol o ystyried gofynion gweithredol yn yr harbwr.

2.4 Gan nad yw'r ddyfais fordwyo ar fwrdd cwch yr harbwr yn gweithio mwyach, bu'n rhaid prynu dyfais system lleoli'n fyd eang gyda'r gallu i synhwyro dyfnder. Mae cwch patrol yr harbwr yn dal yn eitem bwysig o offer gweithredu sy'n galluogi i'r harbwrfeistr wneud y gwaith o arolygu'r sianel fordwyo, rheoli symudiadau cychod yn yr harbwr a chynorthwyo defnyddwyr yr harbwr pan fo angen, yn ddibynnol ar gyfyngiadau'r llanw.

## 3 Cynnal a Chadw

3.1 Yn ogystal â chynnal y cymorthyddion mordwyo, mae contractwr allanol wedi gwneud gwaith cynnal ar angorfeydd ymwelwyr yr harbwr ac mae'r harbwrfeistr wedi archwilio'r angorfeydd 'trot'.

3.2 Prynwyd dau ystol newydd i'r harbwr yn lle'r ystolion ar wal yr harbwr y bernid bod angen eu newid. Mae'r ystolion wrthi'n cael eu gosod.

3.3 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen o waith cynnal a chadw sydd i'w wneud yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

## 4. Materion Eraill

4.1 **Arwyddion diogelwch** Ar y cyd â'r RNLI, cynhaliwyd adolygiad manwl o holl arwyddion diogelwch ardal traeth Abermaw a bellach mae'r arwyddion diogelwch wedi'u gosod ar safleoedd o gwmpas ardal y traeth. Mewn partneriaeth gyda'r RNLI mae'n dal yn fwriad gan y Gwasanaeth osod arwyddion diogelwch tebyg yng nghyffiniau'r Harbwr ac mae gwaith cychwynnol eisoes wedi dechrau.

4.2 **Lloc y Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynnal arolwg o Loc y Pysgotwyr er mwyn cynorthwyo deiliaid y lloc gael gwared â gwastraff o'r safle. Wedyn, bydd y gwasanaeth yn ystyried atgyfnerthu marciau'r llinellau ar y lleiniau unigol yn y lloc.

4.2 **Parcio yn yr Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio tuag at gael mannau parcio dynodedig ar Ffordd y Compownd i helpu Gweithwyr Masnachol a Deiliaid Ardal y Lloc ddal ati gyda'u gweithgareddau mewn amgylchedd harbwr prysur. Mae rheolaeth o'r

ardal yn dal i gael ei drafod i atal y cyhoedd rhag parcio ar hap ac yn unrhyw le, a dymuna Awdurdod yr Harbwr atgoffa defnyddwyr gwasanaeth o'r angen i ddefnyddio'r rhwystr ger mynedfa'r cyfleuster yn effeithiol.

4.3 Mae'r rhwystr trafnidiaeth ar ymyl y cei yn gweithio'n dda ac mae system bellach wedi'i sefydlu i reoli trafnidiaeth cerbydau yn ardal yr harbwr. Pery'r ardal i gael ei monitro mewn ymdrech i warchod cerddwyr sy'n mwynhau'r cyfleuster rhag gorfod dod i gyswllt â thrafnidiaeth gerbydol.

4.4 Gwnaethpwyd cais am gymorth gan swyddogion gorfodaeth ac fe ddalier ati i wneud hyn yn ôl y gofyn, er mwyn galluogi i ddefnyddwyr yr harbwr gael mynediad rhwydd a di-rwystr i'r llithrfa parthed y marciau ffordd ger adeilad 'SS Dora'**.**

4.4 **Pontŵn yr Harbwr.** Mae perchnogaeth a gweithrediad rheolaethol pontŵn yr harbwr yn dal i gael ei drafod. Yn y cyfamser, wrth fynd ati i wneud gwiriadau iechyd a diogelwch yn yr harbwr, mae'r harbwrfeistr wedi gweld ei bod yn hanfodol tynnu'r cychod bach aer o ardal y decio a gwneud gwaith cynnal sylfaenol ar y cyfleuster, gan fod y pontŵn yn dal ar agor i'r cyhoedd.

4.5 Gobeithir y bydd aelod o'r grŵp sy'n ceisio sicrhau dyfodol y pontŵn yn gallu rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol ynglŷn â dyfodol y pontŵn yn y cyfarfod.

4.6 **Cadw cychod dros y Gaeaf**. Yn dilyn ymgynghoriad gydag Adran Amgylchedd y Cyngor, cafwyd caniatâd i ddarparu storfa i gychod yn y maes parcio ger y Ganolfan Hamdden ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth. Nodwyd bod cost storfa o'r fath, fel y'i nodir yn system ffioedd y Cyngor, yn £5.82 y metr y mis.

4.7 Bydd gofyn i unrhyw gwch sy'n defnyddio'r maes parcio ar gyfer storio dalu'r ffioedd taladwy ynghyd â ffensio Harris o gwmpas y cwch. Mae gofyn cadw'r ardal a ddefnyddir yn lân a thaclus. Rhaid i unrhyw gerbyd sy'n defnyddio'r maes parcio dalu ffioedd parcio gan nad yw hyn yn cael ei gynnwys yng nghost storio cychod.

5. **Digwyddiadau**

5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn Harbwr Abermaw yn 2018:

- Ras y Tri Chopa
- Gŵyl Chwaraeon Padlo
- Gŵyl Farcud
- Gŵyl Fwyd Abermaw
- Ras Rafftio
- Digwyddiad Nofio Hwrli Bwrli

5.2 Amharwyd ar y digwyddiad cychod personol elusennol eleni gan dywydd gwael a diweddodd y digwyddiad yn harbwr Abermaw.

5.3 Digwyddiad MotoCross: Yn dilyn ymgynghoriad gyda threfnydd y digwyddiad, mae'r Gwasanaeth yn dweud fod dyddiadau 27 / 28 Hydref yn ddyddiadau allweddol mewn calendr o ddyddiadau a gytunwyd yn genedlaethol, fel rhan o gylch o ddigwyddiadau o

gwmpas y Deyrnas Unedig. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod fod y dyddiad yn cyd-fynd â gwyliau hanner tymor yr ysgol a bydd yn sicrhau y bydd dyddiadau arfaethedig y digwyddiad yn 2019 yn destun ymgynghoriad a chymeradwyaeth.

5.4 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa aelodau ei bod yn hanfodol fod Awdurdod yr Harbwr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig yn yr Harbwr cyn gynted ag y bo modd a bod ei ganiatâd yn cael ei geisio.

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit*

## *Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations*

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli/ Hafan | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 16 Aberdyfi<br>10 Tywyn | 55 Abermaw<br>6 Caerddaniel | 36 | 2 Harbwr<br>23 Hafan | 129 | 85 Abersoch<br>4 Machroes<br>6 Morfa Nefyn<br>8 Nefyn<br>2 Trefor<br>4 Aberdaron | 308 | 694 |
| 2014 | 22 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 65 Abermaw<br>5 Caerddaniel | 20 | 36 Total Boat Care<br>1 Harbwr<br>47 Hafan | 143 | 88 Abersoch<br>5 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 250 | 693 |
| 2015 | 23 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 64 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 42 Total Boat Care<br>43 Hafan | 157 | 76 Abersoch<br>1 Machroes<br>9 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 243 | 696 |
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 Abermaw | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 Abermaw | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 Abermaw | 52 | 72 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 191 Abersoch<br>8 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 924 |

# ***Uned Morwrol / Maritime Unit***

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***



| ***Harbwr Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd Available no of moorings*** | ***Preswylydd Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd*** | ***Eraill*** *Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2013* | *120* | *80 (66.7%)* | *40 (50.0%)* | *40 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2014* | *120* | *75 (62.5%)* | *35 (46.7%)* | *40 (53.3%)* |
| *Aberdyfi 2015* | *120* | *77 (64.2%)* | *35 (45.5%)* | *42 (54.5%)* |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| ***Aberdyfi 2018*** | ***120*** | ***74 (61.7%)*** | ***37 (50.0%)*** | ***37 (50.0%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2013* | *140* | *92 (65.7%)* | *55 (59.8%)* | *37 (40.2%)* |
| *Abermaw 2014* | *140* | *82 (58.6%)* | *54 (65.9%)* | *28 (34.1%)* |
| *Abermaw 2015* | *140* | *93 (66.4%)* | *63 (67.7%)* | *30 (32.3%)* |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| ***Abermaw 2018*** | ***140*** | ***69 (49.3%)*** | ***44 (63.8%)*** | ***25 (36.2%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2013* | *238* | *162 (68.1%)* | *45 (27.8%)* | *117 (72.2%)* |
| *Porthmadog 2014* | *238* | *157 (66.0%)* | *44 (28.0%)* | *113 (72.0%)* |
| *Porthmadog 2015* | *238* | *140 (58.8%)* | *44 (31.4%)* | *96 (68.6%)* |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| ***Porthmadog 2018*** | ***238*** | ***131 (55.0%)*** | ***54 (41.2%)*** | ***77 (58.8%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2013* | *114* | *84 (73.7%)* | *59 (70.2%)* | *25 (29.8%)* |
| *Pwllheli 2014* | *114* | *91 (79.8%)* | *47 (51.6%)* | *44 (48.4%)* |
| *Pwllheli 2015* | *114* | *87 (76.3%)* | *57 (65.5%)* | *30 (34.5%)* |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| ***Pwllheli 2018*** | ***81*** | ***55 (67.9%)*** | ***27 (49.1%)*** | ***28 (50.9%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2013* | *410* | *302 (73.7%)* | *68 (22.5%)* | *234 (77.5%)* |
| *Hafan 2014* | *409* | *293 (71.6%)* | *51 (17.4%)* | *242 (82.6%)* |
| *Hafan 2015* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| ***Hafan 2018*** | ***409*** | ***292 (71.4%)*** | ***56 (19.2%)*** | ***236 (80.8%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2013* | *100* | *100 (100.0%)* | *27 (27.0%)* | *73 (73.0%)* |
| *Dco Fictoria 2014* | *100* | *100 (100.0%)* | *25 (25.0%)* | *75 (75.0%)* |
| *Doc Fictoria 2015* | *100* | *100 (100.0%)* | *21 (21.0%)* | *79 (79.0%)* |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2018*** | ***100*** | ***90 (90.0%)*** | ***21 (23.3%)*** | ***69 (76.7%)*** |
| | | | | |

# *Uned  Morwrol a Pharciau Gwledig*

**Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List**

| ***Harbwr/Harbour Marina*** | ***Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings*** | ***Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring*** | ***Nifer Cychod P ŵer Total number Powerboats*** | ***Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats*** | ***Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 13 | 120 | 80 | 54 | 26 | 67.5% Pwer<br>32.5% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 14 | 120 | 75 | 53 | 22 | 70.7% Pwer<br>29.3% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 15 | 120 | 77 | 53 | 24 | 68.8% Pwer<br>31.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 18** | **120** | **74** | **55** | **19** | **74.3 % Pwer**<br>**25.7% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 13 | 140 | 92 | 62 | 30 | 67.4% Pwer<br>32.6% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 14 | 140 | 82 | 54 | 28 | 65.9% Pwer<br>34.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 15 | 140 | 93 | 60 | 33 | 64.5% Pwer<br>35.5% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 18** | **140** | **69** | **45** | **24** | **65.2% Pwer**<br>**34.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 13 | 238 | 162 | 59 | 103 | 36.4% Pwer<br>63.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 14 | 238 | 157 | 54 | 103 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 15 | 238 | 140 | 45 | 95 | 32.1% Pwer<br>67.9% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 18** | **238** | **131** | **40** | **91** | **30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 13 | 114 | 87 | 39 | 48 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 14 | 114 | 91 | 36 | 55 | 39.6% Pwer<br>60.4% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 15 | 114 | 87 | 46 | 41 | 52.9% Pwer<br>47.1% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 114 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 18** | **114** | **55** | **29** | **26** | **52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 13 | 410 | 302 | 153 | 149 | 50.7% Pwer<br>49.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 14 | 409 | 293 | 139 | 154 | 47.4% Pwer<br>52.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 15 | 409 | 292 | 138 | 154 | 47.3% Pwer<br>52.7% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 18** | **409** | **292** | **150** | **142** | **51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 13 | 100 | 100 | 37 | 63 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 14 | 100 | 100 | 36 | 64 | 36.0% Pwer<br>64.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 15 | 100 | 98 | 34 | 64 | 34.7% Pwer<br>65.3% Hwylio |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| | | | | | |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| **Doc Fictoria 18** | **100** | **90** | **49** | **41** | **54.4% Pwer**<br>**45.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 13 | 1122 | 823 | 416 | 407 | 50.5% Pwer<br>49.5% Hwylio |
| Cyfanswm 14 | 1121 | 798 | 372 | 426 | 46.6% Pwer<br>53.4% Hwylio |
| Cyfanswm 15 | 1121 | 787 | 376 | 411 | 47.8% Pwer<br>52.2% Hwylio |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1121 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 18** | **1121** | **709** | **367** | **342** | **51.8% Pwer**<br>**48.2% Hwylio** |


# HARBWR ABERMAW HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod** / Number of Boats | 92 | 82 | 93 | 88 | 86 | 69 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total LOA | 696.16 | 610.37 | 671.20 | 627.64 | 602.63 | 493.36 |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 7.57 | 7.44 | 7.21 | 7.13 | 7.01 | 7.15 |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 83.82 | 76.45 | 82.89 | 77.96 | 74.56 | 61.21 |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.91 | 0.93 | 0.89 | 0.86 | 0.87 | 0.89 |












# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2018
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2018


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | 69 | 493.36 | 7.15 | 61.21 | 0.89 |
| **Aberdyfi** | 74 | 480.92 | 6.50 | 50.91 | 0.69 |
| **Porthmadog** | 131 | 1055.13 | 8.05 | 131.01 | 1.00 |
| **Pwllheli** | 55 | 416 | 7.56 | 49.11 | 0.89 |
| | | | | | |
| Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours | 329 | 2445.41 | 29.26 | 292.24 | 3.47 |
| Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours | 82.25 | 611.35 | 7.32 | 73.06 | 0.87 |


# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.







| | |
|---|---|
| Fairway buoy | 52° 42.732N |
| Num 1 bar buoy | 52° 42.662N |
| Num 2 Bar Can | 52° 42 700N |
| Num 4 Can | 52° 42.728N |
| Num 6 Can | 52° 42.773N |
| Cardinal buoy South | 52° 42.822N |
| Num 3 Inner Green | 52° 43.004N |
| Visitors mooring Num 1 | 52° 43.012N |
| Visitors mooring Num 2 | 52° 43.017N |
| Visitors mooring Num 3 | 52° 43.109N |